

Tim Modwl

Helen Denny, Module Lead	helen.denny@uwtsd.ac.uk
Ishmael Lewis, Deputy Module Lead	ishmael.lewis@uwtsd.ac.uk

Cysylltwch ag Helen Denny yn gyntaf os gwelwch yn dda. Ar gyfer cymorth **Cyfrwng Cymraeg**, cysylltwch ag Aled Williams

LLAWLYFR MODWL

ECSP7002C

Datblygu a Chyfoethogi'r Cwricwlwm

TAR Uwchradd

LEFEL 7

40 Credyd

CYFADRAN ADDYSG A CHYMUNEDAU

2018-2019

Cyflwyniad

Gobeithiwn y gwnewch fwynhau'r rhaglen. Am eich bod yn ymuno â phroffesiwn, rydym yn eich disgwyl i ymddwyn mewn ffordd briodol yn y brifysgol, ysgol a chyd-destunau eraill sy'n ymwneud â gwaith. Mae'n bwysig bod pob un ohonom yn darllen ac yn dilyn polisïau a chanllawiau'r Brifysgol a'r Ganolfan o ran presenoldeb, asesu, e-ddiogelwch a diogelu. Mae'r rhain ar gael ar Moodle.

O ran asesu, dylai pob aseiniad fod eich gwaith chi eich hun a dylid ei gyflwyno mewn fformat prosesu geiriau. Dylech eu cyflwyno gan ddefnyddio Turnitin drwy Moodle yn unol â pholisi'r Brifysgol.

Gan gyfeirio yn benodol at aseiniadau:

- dylai'r cyfan fod eich gwaith chi eich hun;
- dylid ei gyflwyno mewn fformat prosesu geiriau;
- dylid ei gyflwyno drwy Turnitin yn unol â therfynau amser yr aseiniad;
- dylech gyflwyno'r daflen adborth a ddarperir gyda'ch aseiniad;
- dylech ymgymryd â, a dangos eich bod yn ymgysylltu â'r targedau a osodir ar eich cyfer.

Eich cyfrifoldeb chi yw darllen Rheoliadau ar gyfer Myfyrwyr y Brifysgol, yn enwedig y rheoliadau sy'n ymwneud ag aseiniadau. Mae'r rhain ar gael ar MyDay.

Manylion yr Asesu

Cod y Modwl	Teitl y Modwl	Modd Asesu
ECSP7002C	Datblygu a Chyfoethogi'r Cwricwlwm	Ffurflen Foeseg a Chais (2,000 o eiriau) 11 Ionawr 2019
ECSP7002C	Datblygu a Chyfoethogi'r Cwricwlwm	Papur Ymchwil (8,000) 13 Mai 2019

Nodau a Deilliannau'r Modwl

NODAU

- Galluogi myfyrwyr i ddiwallu'n hyderus y gofynion statudol cyfredol a geir yng Nghymru ar gyfer y dyfarniad SAC.
- Gosod seiliau ar gyfer datblygiad proffesiynol cynnar a pharhaol myfyrwyr er mwyn iddynt ddod yn ymarferwyr beirniadol sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth.
- Cyflwyno'r myfyrwyr i bwysigrwydd arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth a'r ffordd y mae ymchwil personol yn effeithio ar eu harfer yn yr ystafell ddosbarth a'u d atblygiad.

DEILLIANNAU DYSGU

Erbyn diwedd y modwl hwn, dylai fod yr hyfforddeion yn gallu:

- Dangos gwybodaeth systematic, drwyadl a dealltwriaeth o'u pynciau arbenigol o fewn y cwricwlwm uwchradd drwy ddarllen, adfyfrio beirniadol ac ymgymryd ag ymholiadau ymchwil a fydd yn eu galluogi i fod yn athrawon hyfedr;
- Monitro ac asesu yn drylwyr amrywiaeth eang o waith dysgwyr yn briodol a defnyddio'r deilliannau asesu i wella yn gynyddol agweddau penodol o'r cynllunio, dysgu ac addysgu;
- Gwerthuso yn feirniadol a dadansoddi tystiolaeth ymchwil addysgol ac addysgeg a dangos barn gadarn o ddata cymhleth er mwyn cefnogi penderfyniadau sy'n ymwneud ag addysgeg.
- Cynnal ymholiad ymchwil gweithredol ar raddfa fechan, dangos gwreiddioldeb a dadansoddi yn feirniadol agwedd o wella dysgu ac addysgu yn eu pynciau arbenigol.
- Deall a thrafod yn feirniadol rôl ac effaith gweithdrefnau moesegol yng nghyd-destun ymholiad ystafell ddosbarth.

MANYLION SESIYNAU

Dyddiad	Ffocws
09/01/2018	Trosolwg o'r modwl ac asesu – rôl yr athro ymholgar Moeseg
16/ 01/2018	Ymholiad Ystafell Ddosbarth-seiliedig (Methodoleg Ymchwil)
23/01/2018	Rôl myfyrion a'r defnydd o dystiolaeth i gefnogi addysgu
27/02/18	Defnyddio Data Ymchwil

ASESIAD

- Cynllunio a chynhaliwch brosiect ymchwil gweithredol sy'n canolbwyntio ar asesu ar gyfer dysgu a'i effaith ar feysydd o fewn eich maes pwnc arbenigol.
- Nodwch a dadansoddwch yn feirniadol ymchwil gweithredol fel methodoleg ymchwil ddewisol, gan gynnwys casglu data mewn ffordd briodol a methodoleg ddadansoddol.
- Trafodwch rôl moeseg o ran ymchwil addysgol, gan gynnwys cais moeseg yn unol â gweithdrefnau PCYDDS er mwyn cefnogi eu methodoleg ymchwil.

Cyfarwyddyd ar yr Aseiniad Ysgrifenedig

Mae'r aseiniad hwn yn cymryd ffurf archwiliad ysgol / coleg neu ystafell ddosbarth-seiliedig a gaiff ei gynnal yn ystod Profiad Addysgu 1 rhan 2.

Y mae gweithdrefn Moeseg ysgrifenedig ar gyfer cyflwyno, a drwy'r weithdrefn hon, caiff testun a dulliau eich archwiliad eu sefydlu, eu haddasu a'u cytuno gan eich tîm rhaglen TAR a'ch mentoriaid.

Rhan Un – Y Broses Foeseg

Er bod yr aseiniad hwn wedi'i gynllunio er mwyn eich cyflwyno i rôl ymchwil o fewn eich datblygiad ymarferol a phroffesiynol, mae hefyd yn bwysig cydnabod sut mae Moeseg ac ymddygiad moesegol yn effeithio ar y broses hon. Rhan gyntaf yr aseiniad yw cwblhau a chyflwyno cais a ffurflen Foeseg. Yn y dogfennau hyn, mae'n bwysig deall yn feirniadol a chrynhof yn glir

- Diben eich ymchwil – beth yw'r rheswm am wneud yr ymchwil, beth yr ydych chi'n ceisio ei ymchwilio – eich cwestiynau ymchwil?
- Sut y gwnewch chi fynd ati, a sut gwnaiff eich methodoleg ymchwil eich galluogi i ateb eich cwestiynau ymchwil?
- Pwy sy'n cymryd rhan yn eich astudiaeth?

- Beth yw'r risgiau a sut y gwnewch chi eu rheoli.

D.S. dylai'r holl ffurflen foeseg a gyflwynir fod yn rhesymegol ac yn gydllynol.

Rhan Dau – Astudiaeth Ymchwil

Mae darllen yn rhan allweddol o'r aseiniad hwn. Bydd angen arnoch ddangos eich gallu i nodi pwyntiau allweddol yn y llenyddiaeth broffesiynol ac academiaidd sy'n berthnasol i'ch maes astudio dewisol chi. Defnyddiwch y ddealltwriaeth hon i hysbysu eich dewisiadau chi eich hun yn yr ystafell ddosbarth ac i werthuso eich arfer chi eich hun. **Dylai fod tystiolaeth glir o'r cysylltiadau rhwng eich darllen a'ch arfer drwy gydol eich aseiniad, ac nid dim ond yn yr adran adolygu llenyddiaeth gychwynnol yn unig.** Dylai hefyd fod tystiolaeth glir o'ch ymgysylltu â llenyddiaeth broffesiynol ac academiaidd, er mwyn hysbysu arfer ac adfyfrio.

Strwythur Argymelledig

Fe'ch cynghorir i strwythuro eich aseiniad fel a ganlyn:

Rhagair (tua 200 o eiriau)

Darperwch yn gryno gefndir eich ysgol a'r dosbarth. Crynhowch eich rheswm am ddewis

archwilio eich cwestiwn ymchwil penodol chi.

Adolygiad o'r Llenyddiaeth (tua 2,500 o eiriau)

Gwerthuswch lenyddiaeth academiaidd, ymchwil a phroffesiynol sy'n ymwneud â'ch cwestiwn. Nodwch faterion a phryderon allweddol; archwiliwch unrhyw safbwyntiau gwahanol ac /neu argymhellion, ac esboniwch sut mae eich penderfyniadau addysgu a dysgu wedi datblygu o'ch darllen.

Polisi ac Arfer yr Ysgol (tua 500 o eiriau)

Archwiliwch yn gryno bolisi'r ysgol a'r / neu'r adran (os oes un yn bodoli) yn eich maes dewisol. Edrychwch ar sut mae'n cysylltu (neu beidio) â'ch darlleniadau. Os nad oes polisi penodol ar gael, yna archwiliwch unrhyw gyfarwyddyd arall (cynlluniau gwaith, er enghraifft) ac arferion.

Methodoleg a Moeseg (tua 1,000 o eiriau)

Yng ngoleuni eich gwerthusiad a'ch darllen o bolisi / arfer yr ysgol, amlinellwch y dulliau yr ydych wedi dewis eu defnyddio er mwyn archwilio eich cwestiwn ymchwil. Darllenwch lenyddiaeth methodoleg ymchwil a dewiswch eich dulliau a'ch arfau ymchwil yn ddoeth. Pam ydych chi wedi dewis yr arfau ymchwil hyn i archwilio eich cwestiwn? Beth yw manteision a chyfyngiadau eich methodolegau? Cewch beth gyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio'n orau arfau ymchwil ar gyfer yr aseiniad hwn.

Gwerthuso (tua 2,000 o eiriau)

Archwiliwch eich dilyniant o wersi, gan wneud **cysylltau** clir rhwng eich arfer a'r darllen sydd yn ei danategu. Gwerthuswch eich tasgau, adnoddau, ymagweddau a dulliau, gan wneud cysylltau agos â darllen. Archwiliwch a chyflwynwch unrhyw ganlyniadau/ gasgliadau **yn glir a darperwch gysylltau â'ch darllen.**

Casgliadau (tua 1,000 o eiriau)

Crynowch eich casgliadau, gan wneud cysylltau â'ch darllen. Dylech ddod at eich casgliadau mewn ffordd glir ar sail eich gwaith gwerthuso. Cyfeiriwch at arfer i'r dyfodol, gan wneud argymhellion sydd wedi'u seilio ar y darn hwn o ymchwil.

Cyfyngiadau a datblygiad i'r dyfodol (800 o eiriau)

Nodwch gyfyngiadau'r astudiaeth gan dalu sylw arbennig at y meysydd ymholi a ddefnyddir yn y

dyfodol yn yr ystafell ddosbarth ac a fydd o gymorth i'ch datblygiad proffesiynol a phersonol.

Moeseg

Mae ymchwil addysgol yn dod â chyfrifoldebau. Rhaid i chi sicrhau anhysbysrwydd ysgolion, disgyblion a staff. Rhaid defnyddio gofal arbennig wrth ddefnyddio rhai arfau ymchwil, megis cyfweliadau. Sicrhewch eich bod yn trafod eich dulliau arfaethedig gyda'ch tiwtor a'ch mentor cyn dechrau ar eich prosiect – caiff hyn ei gyflawni drwy gyflwyno ffurflen Foeseg yn unol â pholisi Moeseg y Brifysgol. (cyfwerth â thua 2,000 o eiriau)

Atodiadau

Pa le bynnag mae'n berthnasol, gallwch ddewis atodi dogfennau sy'n darparu gwybodaeth bellach ynglŷn â'ch gwaith. Gall y rhain gynnwys enghreifftiau o waith disgyblion, holiaduron, cynlluniau marcio, polisïau'r ysgol / adran ac ati. ***Nid yw'r*** atodiadau yn cyfrif tuag at nifer terfynol y geiriau. Sicrhewch eich bod yn **atodi dim ond yr hyn sy'n hanfodol ar gyfer dealltwriaeth gyflawn o'r pwyntiau yr ydych yn eu gwneud yn yr aseiniad**, a bod pob atodiad wedi'i labelu'n glir (Atodiad A, B ac ati).

Cyngor ar ysgrifennu academiaidd

Ysgrifennu beirniadol:

Mae *ysgrifennu academiaidd* yn ymwneud â chyflwyno dadl wrthrychol, a dyna beth yr ydym am ddarllen. Felly, bydd rhaid i chi drafod y rhesymau ar gyfer ymagwedd, ei chryfderau a'i chyfyngiadau, yn ogystal â'r cyfiawnhad am wneud y dewisiadau a wnaed.

Rhaid i chi beidio ag *adrodd* neu *ddisgrifio* yn unig, oherwydd nid yw hyn yn creu dadl, ac felly nid yw'n *feirniadol*.

Ni ddylid gwneud y ddadl i fyny. Rhaid ei seilio ar ddarllen, gan gyfeirio at adfyfrio personol ar brofiad addysgu proffesiynol. Ceir y darllen mwyaf cyfredol mewn cyfnodolion academiaidd, a dyna pam y dylech gyfeirio at y rhain, yn hytrach na dibynnu ar lyfrau yn unig. Hefyd, caiff erthyglau mewn cyfnodolion eu hadolygu gan eich cymheiriaid, sy'n golygu bod arbenigwyr eraill yn y maes yn cydnabod y cyfraniad. Mae hyn hefyd yn golygu bod gan erthyglau academiaidd hygrdedd a gaiff ei adlewyrchu yn eich gwaith. Am y rheswm hwn, os ydych yn anghytuno gyda'r pwyntiau a gaiff eu gwneud mewn erthygl, bydd rhaid eich bod chi'n gallu cyfiawnhau'r sefyllfa hon drwy ddefnyddio naill ai tystiolaeth arall sydd wedi'i seilio ar ddarllen, neu sy'n seiliedig ar yr ystafell ddosbarth.

Ni ddylech ddibynnu ar *ddyfyniadau uniongyrchol*, oherwydd nid eich geiriau CHI yw'r rhain. Dylech geisio aralleirio pwyntiau, am fod hyn yn dangos gwell ddealltwriaeth ac yn eich galluogi i gymharu a chyferbynnu safbwyntiau yn haws. Er hynny, dylid rhoi'r cyfeirnod am unrhyw aralleirio (Awgryma Smith (2015) ...)

Iaith wylidwrus – wrth ysgrifennu'n academiaidd, rydym yn defnyddio iaith wylidwrus. Y rheswm am hyn yw, ni allwn ddweud unrhyw beth yn bendant, nac awgrymu achos ac effaith uniongyrchol, na chreu ymateb emosiynol yn y darllenydd chwaith. Felly, rydym yn defnyddio geiriau megis 'awgrymu', 'efallai', 'mae'n ymweld pe bai'.

Cywirdeb - ar y lefel hon, rydym yn disgwyl cywirdeb o ran gramadeg, sillafu, atalnodi a chyfeirnod. Darllenwch drwy'r gwaith er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud synnwyr.

***Gwirio testunau (Turnitin)* – bob blwyddyn, rydym yn derbyn un neu ddau aseiniad a gaiff ei ystyried a'u gwirio am arfer annheg (llên-ladrad). Bydd rhaid i chi ddefnyddio'r safleoedd ymarfer cyflwyno i wirio am unrhyw gydweddu testunau ac ymateb yn briodol iddo. Eich cyfrifoldeb chi yw gwirio bod yr holl gyfeirnod i yn gywir.**

Cyfeirnoddi Harvard:

Dilynwch:

<https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/library-and-learning-resources/infoskills/harvard-cym.pdf>

LLYFRYDDIAETH

Hanfodol

Mae natur y darllen a ddangosir yma yn generig a gwnaiff Arweinwyr Cwricwlwm y pynciau uwchradd ddarparu ar gyfer myfyrwyr y rhestri darllen diweddaraf, sy'n cynnwys y testunau allweddol, gwefannau a chyfnodolion, sy'n gysylltiedig â'r meysydd astudio y disgwylir eu cael yn eu pynciau arbenigol.

Arthur, J. (Ed.). (2012). *R Research methods and methodologies in education*. Sage Publications.

British Educational Research Guidelines (BERA, 2012)

<http://content.yudu.com/Library/A1t9gr/BERAEthicalGuideline/resources/index.htm?referrerUrl=>

Dillon J and Maguire M (2011) Eds *Becoming a Teacher: Issues in Secondary Teaching 4th Edition*, Maidenhead: OU Press

Pollard A (2014) *Reflective Teaching*, 4th Edition, London: Continuum

Dogfennau Polisi a Chwricwlwm Allweddol

Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru Llywodraeth Cymru Chwefror 2015

Cymwys am Oes (2015) ar gael ar:

<http://gov.wales/topics/educationandskills/allsectorpolicies/qualified-for-life-an-educational-improvement-plan/?lang=en>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2013) *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol*, Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130415-Inf-guidance-en.pdf>

Fframwaith Cymhwysedd Digidol

<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/digital-competence-framework/?lang=en>

Llwythwch i lawr a darllenwch: Cyfarwyddyd Estyn ar gael ar:

http://dera.ioe.ac.uk/18431/1/Supplementary_guidance_Literacy_and_numeracy_in_primary_sc_hools.pdf

Argymhellir

Brooks, R., Te ., Te Riele, K., & Maguire, M. (2014). Ethics and Education Research. Sage.

Hopkins, D. (2014). A teacher's guide to classroom research. McGraw-Hill Education (UK).

McAteer, M. (2013). Action research in education. Sage.

Somekh, B., & Lewin, C. (Eds.). (2011). Theory and methods in social research. Sage.

Cyfnodolion

Ar y lefel hon, disgwylir bod myfyrwyr yn ymgymryd â darllen yn eang erthyglau mewn cyfnodolion perthnasol er mwyn cyflenwi astudiaethau llyfrau testun.

- British Journal of Educational Research
- British Journal of Educational Studies
- Curriculum Journal
- Educational Research
- Educational Review
- Journal of Curriculum and Pedagogy
- Professional Development in Education
- Cylchgrawn Addysg Cymru

Gwefannau

- Behaviour for Learning - www.behaviour4learning.ac.uk
- British Educational Research Association – www.bera.ac.uk
- Estyn – www.estyn.gov.uk
- Evidence for Policy and Practice Information and Coordination Centre – www.eppi.ioe.ac.uk
- Inclusion UK Consortium – www.inclusion.org.uk

- Arsyllfa Dysgu a Sgiliau Ranbarthol Cymru - www.learningobservatory.com
- National College of School Leadership – www.ncsl.org.uk
- National Foundation for Education Research – www.nfer.ac.uk
- Office for Standards in Education – www.ofsted.gov.uk
- SEN Teacher – www.senteacher.org